| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r :** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Ebrill 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith Archwilio** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno fersiwn drafft o'r rhaglen gwaith i'r dyfodol i Bwyllgor Archwilio Cymunedau i'w ystyried gan yr aelodau.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Er mwyn i'r Pwyllgor ei adolygu a chytuno ar raglen ar gyfer gwaith y dyfodol, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ac yn cymeradwyo, yn adolygu neu'n newid y rhaglen gwaith i'r dyfodol yn unol â'r hyn a bennwyd yn addas.

**4. Manylion am yr Adroddiad.**

4.1 Mae erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor yn gosod telerau cyfeirio, swyddogaethau ac aelodau pob Pwyllgor Archwilio, tra bo rheolau camau gweithredu pwyllgorau archwilio yn cael eu gosod yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac archwilio rhaglen am eu gwaith yn y dyfodol. Drwy archwilio a blaenoriaethu materion, mae'r aelodau yn gallu sicrhau bod y rhaglen waith yn darparu agenda sy'n cael ei arwain gan yr aelodau.

4.3 Ers nifer o flynyddoedd mae'n arferiad gan bwyllgorau archwilio Sir Ddinbych i gyfyngu nifer yr adroddiadau sy'n cael eu trafod mewn un cyfarfod i uchafswm o bedwar ynghyd ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor. Amcan y dull hwn o weithredu yw hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol am bob testun.

4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried drafft y rhaglen waith ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol fel y manylir yn atodiad 1, ac i gymeradwyo, adolygu neu newid yn ôl yr hyn a bennwyd yn addas gan ystyried:

- materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor
- materion a gyfeiriwyd atynt gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio.

- perthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/Cyngor/cymunedau
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- rheoli llwyth gwaith
- amseroldeb
- canlyniadau
- materion allweddol a gwybodaeth i'w gynnwys yn yr adroddiadau
- swyddogion a/neu aelodau arweiniol y Cabinet y dylid eu gwahodd (gan ystyried a yw eu presenoldeb yn anghenraid neu'n fuddiol)
- cwestiynau i'w gofyn i'r swyddogion/aelodau arweiniol y Cabinet

4.5 Yn ogystal â hyn, wrth ystyried eitemau i'w cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol efallai y byddai aelodau yn ei chael yn ddefnyddiol ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu ar addasrwydd eitem:

- beth yw'r mater?
- pwy yw'r rhanddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn man arall?
- beth sydd angen i'r pwyllgor archwilio ei wybod?
- pwy all roi cymorth?

4.6 Fel y soniwyd ym mharagraff 4.2 mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Er mwyn hwyluso'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, mae'r swyddogion o'r farn y bydd yn rhaid gwneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried adroddiad ar y testun er mwyn iddo fod yn deilwng i gael ei drafod ar agenda fusnes y Pwyllgor. Gwnaed hyn drwy gyflwyno 'ffurflen gais' sy'n datgan pwrpas, pwysigrwydd a chanlyniadau tebygol y testun sy'n cael ei gynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen gais i'w hystyried gan y Pwyllgor yn y pwyllgor presennol.

<u>Drafft Strategaeth Tai Lleol</u>

4.7 Trefnwyd bod drafft y Strategaeth hon yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod presennol. Ond, er bod yr ymchwil gefndirol wedi'i gwblhau a bod cynllun ymgynghori'r Strategaeth wedi'i ddatblygu, gan nad yw'r rhain wedi'u hymgynghori hyd yn hyn mae cyflwyniad drafft y Strategaeth wedi'i newid i fis Mai. O ganlyniad, ni fydd fersiwn newydd Strategaeth Tai Lleol, yn dilyn ymgynghoriad y fersiwn ddrafft, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin fel y cynlluniwyd. Yn hytrach, bydd yn cael ei ystyried ym mhwyllgor mis Gorffennaf.

<u>Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol</u>

4.8 Wrth benderfynu ar raglen ar gyfer gwaith y dyfodol byddai'n fuddiol petai'r pwyllgorau archwilio yn cyfeirio at raglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet. I'r diben hwn mae copi o raglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet wedi'i atodi yn Atodiad 2.

Cynnydd Penderfyniadau'r Pwyllgor

4.9 Mae tabl wedi'i atodi sy'n crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor gan roi gwybodaeth i'r aelodau am gynnydd y camau gweithredu yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

**5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

5.1 Yn unol â threfniadau archwilio'r Cyngor, mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn cymryd rôl pwyllgor cydlynu. Wrth wneud y swydd hon gall ofyn i bwyllgorau archwilio unigol fod yn gyfrifol am destunau penodol.

5.2 Bydd yr Aelodau yn cofio cais a wnaed gan Bennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor bod canfyddiadau Adolygiad Cyhoeddiadau'r cyngor yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ym Mai 2013. Yn wreiddiol cytunodd y Pwyllgor â'r cais hwn. Ond, roedd hyn yn rhoi pwysau ar agenda fusnes y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Wrth drafod rhaglenni gwaith y pwyllgor yn y cyfarfod ar 7 Mawrth penderfynodd y GCIGA bod yr eitem hon yn addas ar gyfer Pwyllgor Archwilio Perfformiad ac felly dylai gael ei ystyried ganddynt hwy yn hytrach na'r pwyllgor hwn. Cytunodd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Perfformiad i dderbyn y cais i adrodd ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor. Gan hynny, roedd yn lleihau'r pwysau a roed ar raglen waith Pwyllgorau Archwilio mis Mai.

5.3 Yn yr un cyfarfod penderfynodd y GCIGA bod eitem a drefnwyd ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor hwn ar gyfer Tachwedd 2013 am Dreftadaeth a'r Celfyddydau yn fwy addas ar gyfer Pwyllgor Archwilio Partneriaethau am fod y Cyngor yn cyflenwi nifer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth â nifer o fudiadau eraill. O ganlyniad, mae'r eitem wedi'i throsglwyddo i raglen waith Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar gyfer Rhagfyr 2013. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi a chymeradwyo'r newidiadau uchod i'r rhaglen waith.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn rhoi cymorth i'r Cyngor allu gweithredu'r blaenoriaethau corfforaethol gan gyfateb ag anghenion y gymuned a dymuniadau'r preswylwyr. Bydd datblygiad ac adolygiad pellach y rhaglen waith yn gymorth i'r Cyngor allu monitro ac adolygu materion polisi.

**7. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd angen i wasanaethau ddyrannu amser swyddog i roi cymorth i'r Pwyllgor gyda'r gweithgareddau a nodwyd yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol, a gydag unrhyw gamau gweithredu sy'n codi o ganlyniad i drafodaeth am yr eitemau hynny.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Nid oes angen rhai ar gyfer yr adroddiad hwn. Ond, mae'r adroddiad ei hunan a thrafodaeth am y rhaglen gwaith i'r dyfodol yn cynrychioli proses ymgynghori gyda'r Pwyllgor ynglŷn â'r rhaglen waith yn y dyfodol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risgiau wedi'u canfod mewn perthynas â thrafodaeth am raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor. Ond, drwy archwilio eu rhaglen gwaith i'r dyfodol yn rheolaidd, gall y Pwyllgor sicrhau bod unrhyw risgiau yn cael eu hystyried a'u harchwilio pan fyddant yn cael eu canfod, a bydd argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn delio â'r risgiau hynny.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amodi y dylai pwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi ac adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol.

**Swyddog Cyswllt:** Cydlynydd Archwilio
Rhif Ffôn: (01824) 712554
E-bost: csd_gweinyddol@sirddinbych.gov.uk